
# Cwm Idwal, Ogwen

**CYMEDROL**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 5km (3.1 milltir)
- Hyd: 2 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn


Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru


V-20231106/2153





Wrth i chi adael y maes parcio, anelwch tuag at ben pellaf Canolfan Ogwen, lle byddwch yn dod o hyd i res fach o risiau cerrig. Ewch i fyny'r grisiau a dilynwch y llwybr carreg o'ch blaen. Peidiwch â dilyn llwybr y chwarel ar eich dde.





Wrth i chi ddilyn y llwybr, byddwch yn mynd heibio golygfan gyda phileri llechi yn sefyll mewn cylch. Edrychwch drwy'r tyllau yn y pileri i ddarganfod y copaon cyfagos. Parhewch ar hyd y llwybr, gan fynd drwy giât haearn a chroesi pont.





Dilynwch y llwybr wrth iddo esgyn yn raddol nes i chi gyrraedd fforch yn y llwybr. Ewch i'r dde wrth y fforch a pharhewch nes i chi gyrraedd glan y llyn.





Ar lan y llyn, dilynwch y llwybr i'r chwith. Bydd y llwybr yn mynd â chi o amgylch y llyn mewn cyfeiriad clocwedd. Parhewch i ddilyn y llwybr ar hyd glan y llyn, gan fynd drwy giât mochyn.




Wrth i chi ddechrau nesáu at ben pellaf y llyn, fe fydd y llwybr yn dod yn fwy serth yn raddol. Byddwch yn dod ar draws cyffordd yn y fan hon. Dilynwch y llwybr i'r chwith. Bydd troi i'r dde yn mynd â chi ar hyd y llwybr byrrach.





Parhewch ar hyd y llwybr ac ewch i fyny'r grisiau serth. Croeswch y sgri, ewch dros bont ac ewch ymlaen i gyfeiriad Twll Du (Devil's Kitchen). Byddwch yn ofalus ar y pwynt hwn, yn enwedig os yw'n rhewllyd. Gall y tir dan draed fod yn llithrig iawn.




Wrth i chi barhau i esgyn, byddwch yn cyrraedd clogfaen mawr lle mae'r llwybr yn cymryd tro 90 gradd sydyn i fyny i'r chwith. Parhewch i ddilyn y llwybr.




Cymerwch ofal wrth i chi ddilyn y llwybr yn ôl i lawr at lan y llyn. Bydd un rhan o'r llwybr yn sgrialu dros ychydig o glogfeini.




Parhewch ar hyd y llwybr tuag at ben dwyreiniol y llyn. Wrth i chi ddechrau agosáu at ddiwedd y llyn, fe ddowch at giât a fydd yn eich arwain at draeth graeanog.




Cerddwch dros y bont lechi a throwch i'r chwith i ddilyn eich ôl troed yn ôl i faes parcio Ogwen.